**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Diwygio'r Senedd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

19 Mehefin 2025

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi effaith gyfreithiol i ffiniau etholaethau'r Senedd i'w defnyddio ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026 (“etholiad cyffredinol y Senedd 2026”). Y ffiniau a nodir yn y rheoliadau hyn yw'r rhai a bennir yn adroddiad penderfyniadau terfynol Sefydliad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (“Y Comisiwn”), a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth 2025.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae angen etholaethau newydd i sicrhau ymarferoldeb y system etholiadol ddiwygiedig – a fydd yn golygu bod 6 aelod yn cael eu dychwelyd ar gyfer pob un o'r 16 o etholaethau'r Senedd – a sefydlwyd gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (“Deddf 2024”).

3.2 Mae paragraff 2(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn gosod dyletswydd ar Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnal adolygiad ffiniau i bennu Etholaethau newydd y Senedd.

3.3 Mae paragraff 8(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi ei benderfyniadau terfynol ynghylch ffiniau etholaethol y Senedd ar gyfer Etholiad Cyffredinol y Senedd 2026 cyn 1 Ebrill 2025. Cyhoeddodd y Comisiwn ei benderfyniadau terfynol ar 11 Mawrth 2025.

3.4 Yn unol â Pharagraff 8(5) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, cafodd yr adroddiad terfynol a oedd yn cynnwys penderfyniadau'r Comisiwn ei osod wedyn gerbron y Senedd gan Weinidogion Cymru ar 11 Mawrth 2025.

3.5 Mae paragraff 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn darparu bod:

- *“Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i’r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn”* a bod:

- *“Rhaid i reoliadau o dan y paragraff hwn gael eu gwneud drwy offeryn statudol”*

3.6 Felly, nid oes lle i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth drwy'r rheoliadau hyn heblaw rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn.

3.7 Er ei bod yn ofynnol gosod y rheoliadau gerbron y Senedd o dan baragraff 9(7) o Ddeddf 2024, nid oes unrhyw weithdrefn gan y Senedd sy'n ofynnol ar gyfer gwneud y rheoliadau.

3.8 Mae effaith y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf 2024 - sy'n atal naill ai Gweinidogion Cymru neu'r Senedd rhag gwneud newidiadau i benderfyniadau'r Comisiwn - yn adlewyrchu'r dull bwriadol sy'n sicrhau annibyniaeth, boed gwirioneddol neu ganfyddedig, y Comisiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau.

3.9 Er y bydd y rheoliadau yn dod i rym ar 18 Mehefin 2025, ni fyddant yn cael effaith nes i'r Senedd gael ei diddymu mewn cysylltiad ag etholiad cyffredinol y Senedd 2026, yn unol â darpariaethau paragraff 9(8) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024. Bydd hyn yn sicrhau na fydd sefydlu etholaethau newydd y Senedd yn y gyfraith yn cael unrhyw effaith ar ddychwelyd unrhyw Aelod o'r Senedd na chyfansoddiad y Senedd cyn etholiad pan fydd y system newydd y darparwyd ar ei chyfer gan Ddeddf 2024 yn dod i rym.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y rheoliadau hyn yw cyflawni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o dan Baragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, i roi effaith gyfreithiol i argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â phenderfynu ar etholaethau'r Senedd i'w defnyddio yn etholiad cyffredinol y Senedd 2026. Yn benodol, mae'r rheoliadau'n enwi ac yn disgrifio etholaethau newydd y Senedd a gaiff eu defnyddio yn etholiad cyffredinol y Senedd 2026.

4.2 Effaith y rheoliadau hefyd fydd diddymu'r 40 o etholaethau a'r pum rhanbarth etholiadol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddychwelyd Aelodau'r Senedd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd dau gylch ymgynghori gan y Comisiwn cyn cyhoeddi ei adroddiad terfynol – y naill yn dilyn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol ar 3 Medi 2024, a'r llall yn dilyn cyhoeddi ei gynigion diwygiedig ar 17 Rhagfyr 2024. Daeth 3,741 o sylwadau i law yn ystod y cylch

ymgynghori cyntaf, a daeth 365 o sylwadau i law yn ystod yr ail gylch i'r ymgynghoriad.

5.2 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, o gofio annibyniaeth y broses a gynhaliwyd gan y Comisiwn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.2 Pan *fo rhaid* i Weinidogion Cymru gyflwyno Rheoliadau a all roi effaith i argymhellion y Comisiwn *yn unig*, mae'r offeryn statudol hwn yn dod o fewn yr eithriadau a nodir yn y cod:

> *“Lle bo’r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud wrth arfer pwerau statudol a roddir gan Ddeddf neu Fesur nad ydynt mewn unrhyw fodd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch sut y dylai'r pwerau hynny gael eu harfer”.*